

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyllideb Derfynol 2012-13 Rhagfyr 2011

Mae'r papur hwn yn cynnig gwybodaeth am Gyllideb Derfynol 2012-13. Mae'n rhoi golwg gyffredinol ar gynlluniau gwario 2012-13 a sut mae'r rhain yn cymharu â 2011-12, ac mae'n edrych ar y newidiadau cyffredinol dros gyfnod y gyllideb (hyd at 2014-15) a sut mae Cyllideb Derfynol 2012-13 yn cymharu â Chyllideb Ddrafft 2012-13.

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyllideb Derfynol 2012-13
Rhagfyr 2011

Dr Eleanor Roy

Rhif dogfen: 11/070

Gwasanaeth
Ymchwil



Crynodeb

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13. Mae'n rhoi manylion am gynlluniau gwario ar gyfer 2012-13, a'r cynlluniau dangosol hyd at 2014-15. Cyfeirir at y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers cynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13 ac, felly, dylid ei ddarllen ar y cyd â phapur Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, [Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2012-13](#).

- Ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, cafwyd dyraniadau ychwanegol o **£30.7 miliwn yn 2012-13, £24.4 miliwn yn 2013-14 a £25.6 miliwn yn 2014-15**. Daeth y dyraniadau ychwanegol hyn o gronfeydd wrth gefn i ddechrau.
- Mae'r dyraniadau ychwanegol yn 2012-13 yn cynnwys **£27.23 miliwn i'r portffolio Addysg a Sgiliau a £1 filiwn i'r portffolio Busnes, Addysg, Technoleg a Gwyddoniaeth**.
- Bwriedir cynyddu cyfanswm y gwariant a reolir a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru gan **£84.8 miliwn yn 2012-13, sef cynnydd o 0.6%** o'i gymharu â 2011-12. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o £284.2 miliwn (1.9%).
- Bwriedir cynyddu'r terfyn gwariant adrannol a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru gan **£25.4 miliwn yn 2012-13, sef cynnydd o 0.2%** o'i gymharu â 2011-12. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o £334.4 miliwn (2.3%).
- Bwriedir cynyddu'r gwariant a reolir yn flynyddol a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru gan **£59.4 miliwn yn 2012-13, sef cynnydd o 18.7%** o'i gymharu â 2011-12. Mewn termau real, mae hyn yn gynnydd o £50.2 miliwn (15.8%).

Er gwybodaeth, mae'r holl gyfrifiadau termau real sy'n ymddangos yn y papur hwn wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio [canrannau datchwyddiant cynnyrch mewnwladol crynswth](#) Trysorlys Ei Mawrhydi (fel ym mis Hydref 2011). Yr amcangyfrifon a ddefnyddir yw: 2.5% ar gyfer 2012-13 a 2.7% ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

Wrth edrych ar wariant cyffredinol Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig ystyried a yw rhagolygon y canrannau datchwyddiant CMC yn adlewyrchu pwysau'r costau ar y sector cyhoeddus yn ddigonol, y mae'n bosibl y bydd costau cyflogau a chontractwyr yn dylanwadu mwy arnynt.

Cynnwys

1.	Cyllideb Derfynol 2012-13	1
2.	Effaith Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 a'i gyd-destun o ran Cyllideb Derfynol 2012-13	3
3.	Newidiadau ers cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2012-13	5
4.	Trosolwg ar floc Cymru	7
4.1.	Cyfanswm y gwariant a reolir	7
4.2.	Cyfanswm y terfynau gwariant adrannol	12
4.3.	Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw	17
4.4.	Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf	21
4.5.	Gwariant a Reolir yn Flynyddol	25
5.	Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	27
6.	Llywodraeth Leol a Chymunedau	30
7.	Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	33
8.	Addysg a Sgiliau	37
9.	Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	41
10.	Tai, Adfywio a Threftadaeth	44
11.	Gwasanethau Canolog a Gweinyddu	47

1. Cyllideb Derfynol 2012-13

Bu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn trafod Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13¹ ar 15 Tachwedd 2011.² Cafwyd 29 o bleidleisiau o blaid y cynnig i nodi'r gyllideb ddrafft, a 29 pleidlais yn ei erbyn. Defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn y gwelliant, yn unol â Rheol Sefydlog 6.20, ac felly gwrthodwyd y gwelliant. Cyflwynwyd gwelliant i'r cynnig gan y gwrthbleidiau a oedd yn gwrthwynebu'r gyllideb ddrafft:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gwrthod cefnogi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2011 gan y Gweinidog Cyllid, ar y sail nad yw'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r canlynol:

- a) y pwysau ariannol y mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ei wynebu;
- b) yr argyfwng economaidd sy'n gwaethygu;
- c) y pwysau ariannol y mae ysgolion yn ei wynebu er mwyn diwallu anghenion plant difreintiedig; a
- d) y pwysau ariannol ar brosiectau cyfalaf.³

Unwaith eto, methwyd â dod i benderfyniad ynghylch y gwelliant hwn, gyda 29 o bleidleisiau o'i blaid ac yn ei erbyn, a defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

Yn dilyn y bleidlais ar y gyllideb ddrafft, gwnaeth arweinydd Plaid Cymru a llefarydd y blaid dros gyllid, Ieuan Wyn Jones AC, y sylw hwn:

Nid yw cyllideb ddrafft y Llywodraeth yn ymateb i'r sefyllfa economaidd enbyd a wynebir gan bobl Cymru. Mae cymunedau Cymru ar hyn o bryd yng nghanol argyfwng economaidd ac yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn benderfynol o orfodi'r llywodraeth i ymateb i'r argyfwng hwnnw.⁴

Dywedodd Paul Davies AC, Gweinidog Cyllid yr Wrthblaid:

We remain committed to working with all parties in order to obtain a budget that deals with the demands of the National Health Service, the economy and our schools.

The Welsh Labour Government's draft budget does not accomplish that. Its priorities are distorted and do not address the needs of communities the length and breadth of the country.

Additional' funding for the NHS is not 'additional' when health spending is already being cut. Neither is this a budget for 'growth and jobs' when there is no further help on business rates.

¹ Llywodraeth Cymru, [Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2012-13](#), Hydref 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion 15 Tachwedd 2011](#) [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion 15 Tachwedd 2011](#) [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

⁴ Gwefan Plaid Cymru, [Sylw'r Blaid ar ddadl y gyllideb ddrafft](#), 15 Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

We believe increased flexibility is required from the government - in order to achieve a budget that is fit for purpose.⁵

Dywedodd Kirsty Williams AC, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru:

This budget fails to address the shocking scandal that as the schools performance gap between Wales, Scotland, England and Northern Ireland continues to grow, Labour still spends £600 less on each pupil each year compared to those living in England.

We have already said that we will not support a budget that does not make progress towards closing the funding gap with England - starting with the poorest children who need the extra help the most.

This draft Welsh Government budgets also neglects the need to tackle unemployment and boost the economy by incentivising employers that take on new trainees. Additional resources towards re-booting the Welsh economy and providing training for those without work must be included in a budget that the Welsh Liberal Democrats can support.⁶

Aeth y trafodaethau ar y gyllideb ddrafft yn eu blaenau rhwng Llywodraeth Cymru a'r tair wrthblaid, a daethpwyd i gytundeb gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar 25 Tachwedd.⁷ Roedd y fargen yn cynnwys:

- rhoi **£20 miliwn yn ychwanegol** i addysg, yn ystod pob blwyddyn o gyfnod y gyllideb, sydd i'w gyfeirio at y disgyblion tlotaf drwy'r cynllun Grant Amddifadedd Disgyblion;
- cytundeb ynghylch **dyrannu'r £38.9 miliwn** a gafwyd o ganlyniad i rewi trethi cyngor yn Lloegr;⁸ a
- chytundeb yr ymgynghorir â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ynghylch **dyrannu unrhyw arian ychwanegol canlyniadol** yn dilyn datganiad y Canghellor yn yr hydref ar 29 Tachwedd 2011.⁹

Gosododd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, Gynnig Cyllideb Flynyddol 2012-13 Llywodraeth Cymru¹⁰ gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 29 Tachwedd 2011. Cyflwynwyd dogfen naratif,¹¹ tablau dyraniadau gwariant¹² a

⁵ Gwefan y Ceidwadwyr Cymreig, [Draft Budget: Best interests of Wales must come first](#), 15 Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

⁶ Gwefan Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, [Labour's spending plans not fit for Wales - Kirsty Williams](#), 15 Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

⁷ Gwefan Newyddion y BBC, [Cyllideb: Dwy blaid yn cytuno](#), 25 Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

⁸ O'r £38.9 miliwn canlyniadol, **mae £8.23 miliwn wedi'i gynnwys yn y gyllideb hon** i gael ei drosglwyddo o flwyddyn ariannol 2011-12. Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Pecyn Ysgogi Economaidd](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 28 Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

⁹ Credir bod yr arian canlyniadol ychwanegol sydd ar gael dros y tair blynedd nesaf yw tua **£300 miliwn**, gan gynnwys £216 miliwn mewn arian cyfalaf. **Nid yw'r arian canlyniadol wedi'i gynnwys yn y gyllideb hon** oherwydd ni fydd yr arian ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn ariannol ac mae'n debygol y caiff ei ddyrannu drwy gyllideb atodol ychwanegol. Gwefan BBC News, [Welsh government budget gets £300m from George Osborne](#), 29 Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

¹⁰ Llywodraeth Cymru, [Cynnig y Gyllideb Flynyddol 2012-13](#), Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

¹¹ Llywodraeth Cymru, [Naratif y Gyllideb Derfynol 2012-13](#), Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

¹² Llywodraeth Cymru, [Dyraniadau gwariant y Gyllideb Derfynol 2012-13](#), Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

datganiad ysgrifenedig¹³ gyda'r cynnig. Mae'r ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Derfynol yn nodi:

Dyna pam ein bod wedi gweithio'n agos â'r Gwrthbleidiau i ddatblygu pecyn i ysgogi'r economi ac i fireinio ein cynigion yn y Gyllideb Ddrafft. Mae'r rhan hon o'r broses wedi bod yn hanfodol ar gyfer canolbwyntio ar sut i fodloni anghenion Cymru gyda'r adnoddau ariannol cyfyngedig sydd ar gael.

...

Er gwaethaf y ddadl heriol a gafwyd dros yr wythnosau diwethaf, nid oes tystiolaeth bendant i awgrymu bod angen newid y cynlluniau gwariant a gynigir yn y Gyllideb Ddrafft yn sylweddol. Fodd bynnag, rydym wedi cynnig nifer fach newidiadau yn sgil y sylwadau a'r adborth a ddaeth i law wrth graffu ar ein cynigion yn y Gyllideb.¹⁴

2. Effaith Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 a'i gyd-destun o ran Cyllideb Derfynol 2012-13

Roedd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 ("Adolygiad 2010")¹⁵ yn cyhoeddi cyfnod o gyfyngiadau nas gwelwyd o'r blaen mewn cyllid cyhoeddus er mwyn lleihau'r diffyg yng nghyllideb y DU. Rhagwelwyd mai'r effaith ar y terfynau gwariant adrannol¹⁶ ym mloc Cymru pan gynhaliwyd Adolygiad 2010 fyddai gostyngiad cyffredinol o £1.9 biliwn mewn termau real dros gyfnod yr adolygiad o wariant (rhwng 2010-11 a 2014-15). Mae newidiadau dilynol, o ganlyniad i Gyllideb 2011 y DU¹⁷ a rhagolygon chwyddiant diwygiedig, yn golygu y rhagwelir, ar hyn o bryd, y bydd gostyngiad cronus o £2.1 biliwn ym mloc Cymru dros y cyfnod hwn.

Mae **ffigur 1** yn dangos y newid mewn termau real yng nghyfanswm y gwariant a reolir¹⁸ ym mloc Cymru dros amser, sy'n dangos pa mor ddifrifol yw'r gostyngiadau i'r bloc ers blwyddyn ariannol 2009-10 ac effaith y gostyngiadau ar wariant cyhoeddus.

¹³ Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Cyllideb Derfynol 2012-13](#), 29 Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

¹⁴ Llywodraeth Cymru, [Naratif y Gyllideb Derfynol 2012-13](#), tudalen 2, Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]


¹⁵ Trysorlys Ei Mawrhydi, [Spending Review 2010](#), Hydref 2010 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

¹⁶ **Terfynau gwariant adrannol** - Dyma derfyn cyllideb Llywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd, a chânt eu pennu fel rheol dros dair i bedair blynedd fel rhan o broses adolygu gwariant Llywodraeth y DU. Mae'r rhan fwyaf o'r terfynau gwariant adrannol heb eu neilltuo (y gyllideb wedi'i chlustnodi, a elwir yn grant bloc hefyd) ac mae'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddewis ei holl flaenoriaethau gwariant. Pennir y newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer yr eitemau hyn gan fformiwla Barnett.

¹⁷ Trysorlys Ei Mawrhydi, [Budget 2011](#), Mawrth 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

¹⁸ **Cyfanswm y gwariant a reolir** - cyfanswm cyfunol o'r ddwy elfen yn y gyllideb sef gwariant a reolir yn flynyddol a therfynau gwariant adrannol.

Ffigur 1: Newid canrannol ym mloc Cymru rhwng 1999-2000 a 2014-15 mewn termau real, (1999-2000 fel blwyddyn cyfeirio)



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllidebau Llywodraeth Cymru.

Cafodd cylch cyllideb 2011-12 ei gyflwyno yng nghyd-destun yr adolygiad o wariant a'r gostyngiadau i floc Cymru. Ar yr adeg hon, roedd yr economi wedi dechrau dangos arwyddion ei bod yn gwella ar ôl y dirywiad. Roedd twf cynnyrch mewnwladol crynswth yn gryfach na'r disgwyl ac roedd y Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau wedi diwygio ei rhagolygon fel eu bod yn uwch.¹⁹ Yn y tymor canolig, roedd disgwyl i chwyddiant aros oddeutu ei lefel targed o 2 y cant (CPI), yn rhannol oherwydd y cynnydd mewn Treth ar Werth (TAW). At ei gilydd, roedd disgwyl i'r economi wella ar ôl y dirwasgiad, ond yn gymharol araf.

Fodd bynnag, yn ystod 2011, mae twf economaidd wedi cael ei lesteirio i ryw raddau gan ddigwyddiadau byd-eang, gan gynnwys y cynnydd dychreynllyd mewn prisiau olew, y daeargryn yn Japan a'r argyfwng dyled sofran yn ardal yr Ewro. Mae'r ffactorau hyn, law yn llaw â'r mesurau cynildeb mewn nifer o wledydd Ewropeaidd, wedi arwain at ddiwygio'r rhagolygon. O ganlyniad, caiff cyllideb ddrafft 2012-13 ei chyflwyno mewn hinsawdd o ansicrwydd economaidd cynyddol, pan fo tybiaeth y bydd y darlun economaidd yn gwaethygu ac ofnau y bydd dirwasgiad pellach.

¹⁹ Y Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau, *Economic and Fiscal Outlook*, Mawrth 2011. Bwriedir diweddarau'r cyhoeddiad hwn ym mis Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

Ar y cyd â datganiad y Canghellor yn yr hydref ar 29 Tachwedd 2011, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau wedi cyhoeddi rhagolygon diwygiedig ar gyfer y broses o gadw cydbwysedd economaidd a chyllidol.²⁰ Cafodd y rhagolygon hyn eu **diwygio'n sylweddol i adlewyrchu sefyllfa'r economi wrth iddi waethygu**. Ceir crynodeb o brif bwyntiau'r rhagolygon hyn, ynghyd â chymariaethau â rhagolygon annibynnol, ym mhapur y Gwasanaeth Ymchwil: [Rhagolygon economaidd a chyllidol](#).

3. Newidiadau ers cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2012-13

Ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, cafwyd dyraniadau ychwanegol o **£30.7 miliwn yn 2012-13, £24.4 miliwn yn 2013-14 a £25.6 miliwn yn 2014-15**. Cafodd y dyraniadau ychwanegol hyn eu gwneud o gronfeydd wrth gefn i ddechrau.

Mae [tabl 1](#) yn dangos y trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd refeniw a chyfalaf wrth gefn ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft.

Tabl 1: Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd refeniw y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol

Trosglwyddiad	2012-13	2013-14	2014-15
CRONFEYDD REFENIW:			
Addysg a Sgiliau: Grant Amddifadedd Disgyblion	-20,000	-20,000	-20,000
Addysg a Sgiliau: Rhaglen Recriwtiaid Newydd	-4,230	0	0
Addysg a Sgiliau: Sgiliau Twf Cymru	-3,000	0	0
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	-2,586	-3,479	-4,286
Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus	-73	-143	-133
Archwilydd Cyffredinol Cymru	129	129	129
Taliadau uniongyrchol	33	33	33
Newid ers y Gyllideb Ddrafft	-29,727	-23,460	-24,257
CRONFEYDD CYFALAF:			
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth:			
Prosiect Tai Melin Trelái	-1,000	0	0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	-16	-16	-16
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	88	-950	-1,291
Newid ers y Gyllideb Ddrafft	-928	-966	-1,307

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.

- Mae **£20 miliwn** wedi ei ddyrannu, **ym mhob blwyddyn o'r gyllideb**, i'r prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau ar gyfer y **Grant Amddifadedd Disgyblion** (gweler [adran 8](#) am ragor o fanylion). Cafodd y dyraniadau hyn eu gwneud o gronfeydd wrth gefn i ddechrau.

²⁰ Y Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau, [Economic and Fiscal Outlook](#), Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

- Mae **£4.23 miliwn** wedi ei ddyrannu i'r prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau ar gyfer y **Rhaglen Recriwtiaid Newydd** (gweler [adran 8](#) am ragor o fanylion). Mae hwn yn llunio rhan o'r Pecyn Ysgogi Economaidd²¹ a gyhoeddwyd o ganlyniad i'r swm canlyniadol o £38.9 miliwn o'r dreth gyngor, ac mae £8.23 miliwn o'r arian hwn yn cael ei ddyrannu drwy'r gyllideb hon, ac fe'i dyranwyd o gronfeydd wrth gefn i ddechrau.
- Mae **£3 miliwn** wedi ei ddyrannu i'r prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau ar gyfer **Sgiliau Twf Cymru** (gweler [adran 8](#) am ragor o fanylion). Fel yr uchod, mae hwn yn llunio rhan o'r Pecyn Ysgogi Economaidd ac fe'i dyranwyd o gronfeydd refeniw wrth gefn i ddechrau.
- Mae **£1 filiwn** wedi ei dyrannu i'r prif grŵp gwariant Busnes, Addysg, Technoleg a Gwyddoniaeth yn ystod 2012-13 ar gyfer **Prosiect Tai Melin Trelái** (gweler [adran 7](#) am ragor o fanylion). Fel yr uchod, mae hwn yn llunio rhan o'r Pecyn Ysgogi Economaidd ac fe'i dyranwyd o gronfeydd cyfalaf wrth gefn i ddechrau.
- Bu newidiadau i ddyraniadau'r **cyrff a ariennir yn uniongyrchol**,²² er mwyn adlewyrchu eu cyllidebau arfaethedig ar gyfer 2012-13 a gyflwynwyd ac y craffwyd arnynt ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft. Mae'r newidiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y refeniw wrth gefn.
- Bu **gostyngiad o £33 miliwn** ym mhob blwyddyn o'r gyllideb mewn perthynas â'r **taliadau uniongyrchol a godir**²³ ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Cafodd y £28.23 miliwn ychwanegol a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 eu gwneud i ddechrau o'r cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai ei bwriad yw **dwyn y cyllid hwnnw ymlaen o flwyddyn ariannol 2011-12 fel rhan o'r System Cyfnewid Cyllideb**.²⁴ Wrth ddefnyddio'r dull hwn, **ni fydd yr arian ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn ariannol**, ac felly mae'n debygol y caiff ei ailddyrrannu i'r cronfeydd wrth gefn drwy gyllideb atodol ychwanegol ar gyfer 2012-13.

O ran y Pecyn Ysgogi Economaidd²⁵ a gyhoeddwyd o ganlyniad i'r £38.9 miliwn a gafwyd o ganlyniad i rewi trethi cyngor yn Lloegr, caiff £8.23 miliwn ei dyrannu drwy'r gyllideb hon. Caiff y **£30.67 miliwn sy'n weddill ei ddyrannu ym mlwyddyn ariannol 2011-12**, ac mae'n debygol felly o gael ei ddyrannu drwy

²¹ Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Pecyn Ysgogi Economaidd](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 28 Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

²² Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

²³ Mae natur y taliadau a godir yn uniongyrchol wedi'u nodi yn Atodlen 6 i [Cynnig y Gyllideb Flynyddol 2012-13](#) (tudalen 25)

²⁴ Ceir rhagor o wybodaeth am y **System Cyfnewid Cyllideb** yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: [Hyblygrwydd Cyllidebol: Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn a Chyfnewid](#) [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

²⁵ Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Pecyn Ysgogi Economaidd](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 28 Tachwedd 2011 [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

gyllideb atodol ar gyfer 2011-12 (a disgwylir iddi gael ei chyhoeddi'n fuan yn 2012).

4. Trosolwg ar floc Cymru

Dengys Atodlen 6 i Gynigion y Gyllideb Flynyddol **bod Trysorlys Ei Mawrhydi wedi darparu cyfanswm o £15.4 biliwn ar gyfer bloc Cymru²⁶ ym mlwyddyn ariannol 2012-13.²⁷ Mae hyn £431,000 yn llai na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb ddrafft.²⁸**

Wrth edrych ar gyllideb derfynol 2012-13, dylid nodi bod y ffigurau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru fel llinell sylfaen 2011-12 yn seiliedig ar y rheini yng Nghyllideb Atodol 2011-12, sydd wedi'u hailddatgan i dynnu dyraniadau nad ydynt yn ailddigwydd. Dyma'r ffigurau newydd:

- Y portffolio Tai, Adfywio a Threftadaeth: mae llinell sylfaen 2011-12 £150,000 yn is na dyraniad cyllideb atodol 2011-12. Mae hyn yn sgil tynnu dyraniad o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.
- Y portffolio Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: mae llinell sylfaen 2011-12 £8.8 miliwn yn is na dyraniad cyllideb atodol 2011-12. Mae hyn yn sgil tynnu dyraniad o'r cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â chostau etholiadau'r Cynulliad.

Ceir cynnydd cyfatebol o £8.95 miliwn yn llinell sylfaen y cronfeydd refeniw i gynnwys y ffigurau newydd hyn.

4.1. Cyfanswm y gwariant a reolir

Mae Tablau 2 a 3 yn dangos cyfanswm y gwariant a reolir ym mloc Cymru (hynny yw, dyraniadau i adrannau Llywodraeth Cymru, a'r ddarpariaeth ar gyfer y cyrff a ariennir yn uniongyrchol,²⁹ cronfeydd wrth gefn a ffioedd uniongyrchol, ond heb gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer Swyddfa Cymru). Mae [tabl 2](#) yn dangos y newidiadau yng nghyfanswm y gwariant a reolir ers y gyllideb ddrafft ac mae [tabl 3](#) yn dangos y newid rhwng 2011-12 a 2012-13 a'r newid cyffredinol dros gyfnod

²⁶ Gan gynnwys terfynau gwariant adrannol a gwariant a reolir yn flynyddol.

²⁷ Llywodraeth Cymru, [Cynnig y Gyllideb Flynyddol 2012-13](#), Tachwedd 2011 (Atodlen 6 tudalen 24) [fel ar 1 Rhagfyr 2011]

²⁸ Yn y gyllideb ddrafft, y ffigur oedd £15,406,906,000, ac yn y Gyllideb Derfynol y ffigur yw £15,406,475,000.

²⁹ Y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

y gyllideb (rhwng 2011-12 a 2014-15), mewn termau arian parod ac mewn termau real.

- Mae cyfanswm y gwariant a reolir ym mloc Cymru ar gyfer 2012-13 yn **£15.4 biliwn**, sef **cynnydd o £42.3 miliwn, sydd 0.3% yn uwch na'r cyfanswm yn 2011-12**. Mewn termau real, mae hyn gyfwerth â gostyngiad o 2.2%.
- Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2011-12 a 2014-15), ceir **cynnydd cyffredinol o £162 miliwn yng nghyfanswm y gwariant a reolir, neu 1.1%**. Mewn termau real, mae hyn yn golygu gostyngiad o 6.5%.

O'i gymharu â'r gyllideb ddrafft, mae cyfanswm y gwariant a reolir ym mloc Cymru wedi **cynyddu £27.8 miliwn (0.2%) yn 2012-13 ac nid oes dim newid yn 2013-14 nac yn 2014-15**.

Mae'r cynnydd o £27.8 miliwn yn 2012-13 yn adlewyrchu'r bwriad i ddwyn £28.23 miliwn ymlaen o flwyddyn ariannol 2011-12 fel y dangosir o dan 'yr arian a gaiff ei ddilyn ymlaen o dan amcangyfrifon y gyllideb a gyflwynwyd' (fel y'i nodir yn [adran 3](#)). Gan na fydd y £28.23 miliwn hwn ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn, ac mae'r cronfeydd wrth gefn wedi talu am hwn yn y cyfamser, y gwir newid yng nghyfanswm y gwariant a reolir yw **gostyngiad o £431,000 yn 2012-13, o'i gymharu â'r gyllideb ddrafft**. Yr unig reswm dros hyn yw'r gostyngiad yn y gwariant a reolir yn flynyddol, fel y nodir yn [adran 4.5](#).

- Cyfanswm y gwariant a reolir a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru (hynny yw, y darpariaethau ar gyfer y prif grwpiau gwariant)³⁰ ar gyfer 2012-13 yw **£15.1 biliwn**, sef 98 y cant o gyfanswm bloc Cymru.
- O'i gymharu â 2011-12, mae hyn yn **gynydd o £84.8 miliwn (0.6%)**. Mewn termau real, mae hyn gyfwerth â gostyngiad o £284.2 miliwn (1.9%).
- Dros gyfnod y gyllideb, ceir **cynnydd cyffredinol o £107.3 miliwn (0.7%)**. Mewn termau real, mae hyn gyfwerth â gostyngiad o £1 biliwn (6.8%).

³⁰ **Prif grŵp gwariant** - Rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl rhan gyda phob un â lefel wahanol o fanylion at ddibenion monitro a rheoli. Y prif grwpiau gwariant sy'n cynnig y manyldeb mwyaf ac maent yn cyfateb i bortffolios neu gwmpas gwaith Gweinidogion. O dan lefel y prif grwpiau gwariant, nodir y gwariant yn ôl maes rhaglenni gwariant ac, o fewn y rhain, ceir camau gweithredu.

O'i gymharu â'r gyllideb ddrafft, mae cyfanswm y gwariant a reolir a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru **£28.2 miliwn (0.2%) yn uwch yn 2012-13, £20 miliwn yn uwch yn 2013-14 ac £20 miliwn yn uwch yn 2014-15.**

Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r dyraniadau ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn i'r prif grwpiau gwariant Addysg a Sgiliau a Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, fel y nodir yn [adran 3](#).

Tabl 2: Y newid yng nghyfanswm y gwariant a reolir ers y gyllideb ddrafft

Prif Grŵp Gwariant	Llinell sylfaen 2011-12	Cyllideb Ddrafft 2012-13	Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14	Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Derfynol ddangosol 2013-14	Cyllideb Derfynol ddangosol 2014-15	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb		Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb		Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb	
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,420,941	6,469,006	6,374,272	6,493,538	6,469,006	6,374,272	6,493,538	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,153,048	5,168,827	5,156,818	5,207,509	5,168,827	5,156,818	5,207,509	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	321,636	312,728	305,200	305,200	313,728	305,200	305,200	1,000	0.3	0	0.0	0	0.0
Addysg a Sgiliau	1,925,476	1,960,048	1,979,943	1,979,603	1,987,278	1,999,943	1,999,603	27,230	1.4	20,000	1.0	20,000	1.0
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	329,709	326,812	319,993	323,439	326,812	319,993	323,439	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	531,025	514,330	489,901	489,947	514,330	489,901	489,947	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	361,450	348,082	330,846	331,364	348,082	330,846	331,364	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm Dy raniadau y Gwariant a Reolir gan Lywodraeth Cymru	15,043,285	15,099,833	14,956,973	15,130,600	15,128,063	14,976,973	15,150,600	28,230	0.2	20,000	0.1	20,000	0.1
Cronfeydd Refeniw	213,834	195,130	243,674	269,839	165,403	220,214	245,582	-29,727	-15.2	-23,460	-9.6	-24,257	-9.0
Cronfeydd Cyfalaf	69,880	50,449	50,449	92,162	49,521	49,483	90,855	-928	-1.8	-966	-1.9	-1,307	-1.4
Dilyn ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllideb	0	0	0	0	28,230	0	0	28,230
Comisiwn y Cynulliad	49,322	45,229	45,521	45,521	47,477	49,950	51,098	2,248	5.0	4,429	9.7	5,577	12.3
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,853	4,853	4,853	4,853	4,740	4,740	4,740	-113	-2.3	-113	-2.3	-113	-2.3
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,854	3,961	3,960	3,960	3,853	4,103	4,093	-108	-2.7	143	3.6	133	3.4
Taliadau uniongyrchol	631	675	675	675	642	642	642	-33	-4.9	-33	-4.9	-33	-4.9
Cyfanswm y gwariant a reolir yng Nghymru	15,385,659	15,400,130	15,306,105	15,547,610	15,427,929	15,306,105	15,547,610	27,799	0.2	0	0.0	0	0.0

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft a Chyllideb Derfynol 2012-13 Llywodraeth Cymru.

Tabl 3: Cyfanswm y gwariant a reolir ym mloc Cymru: y newid rhwng 2011-12 a 2012-13 a thros gyfnod y gyllideb, yn nhermau arian parod ac mewn termau real

Prif Grŵp Gwariant	Llinell syifaen 2011-12	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Derfynol ddangosol 2013-14	Cyllideb Derfynol ddangosol 2014-15	Newid rhwng 2011-12 a 2012-13		Newid yn nhermau real rhwng 2011-12 a 2012-13		Newid cyffredinol rhwng 2011-12 a 2014-15		Newid cyffredinol yn nhermau real rhwng 2011-12 a 2014-15	
	£000	£000	£000	£000	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant	£000	y cant
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,420,941	6,469,006	6,374,272	6,493,538	48,065	0.7	-109,716	-1.7	72,597	1.1	-414,508	-6.5
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,153,048	5,168,827	5,156,818	5,207,509	15,779	0.3	-110,290	-2.1	54,461	1.1	-336,174	-6.5
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	321,636	313,728	305,200	305,200	-7,908	-2.5	-15,560	-4.8	-16,436	-5.1	-39,330	-12.2
Addysg a Sgiliau	1,925,476	1,987,278	1,999,943	1,999,603	61,802	3.2	13,332	0.7	74,127	3.8	-75,871	-3.9
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	329,709	326,812	319,993	323,439	-2,897	-0.9	-10,868	-3.3	-6,270	-1.9	-30,532	-9.3
Tai, Adfywio a Threftadaeth	531,025	514,330	489,901	489,947	-16,695	-3.1	-29,240	-5.5	-41,078	-7.7	-77,831	-14.7
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	361,450	348,082	330,846	331,364	-13,368	-3.7	-21,858	-6.0	-30,086	-8.3	-54,943	-15.2
Cyfanswm Dyraniadau y Gwariant a Reolir gan Lywodraeth Cymru	15,043,285	15,128,063	14,976,973	15,150,600	84,778	0.6	-284,199	-1.9	107,315	0.7	-1,029,189	-6.8
Cronfeydd Refeniw	213,834	165,403	220,214	245,582	-48,431	-22.6	-52,465	-24.5	31,748	14.8	13,326	6.2
Cronfeydd Cyfalaf	69,880	49,521	49,483	90,855	-20,359	-29.1	-21,567	-30.9	20,975	30.0	14,160	20.3
Dilyn ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllideb	0	28,230	0	0	28,230	..	27,541
Comisiwn y Cynulliad	49,322	47,477	49,950	51,098	-1,845	-3.7	-3,003	-6.1	1,776	3.6	-2,057	-4.2
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,853	4,740	4,740	4,740	-113	-2.3	-229	-4.7	-113	-2.3	-469	-9.7
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,854	3,853	4,103	4,093	-1	-0.0	-95	-2.5	239	6.2	-68	-1.8
Taliadau uniongyrchol	631	642	642	642	11	1.7	-5	-0.7	11	1.7	-37	-5.9
Cyfanswm y gwariant a reolir yng Nghymru	15,385,659	15,427,929	15,306,105	15,547,610	42,270	0.3	-334,021	-2.2	161,951	1.1	-1,004,335	-6.5

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Derfynol 2012-13 Llywodraeth Cymru.

4.2. Cyfanswm y terfynau gwariant adrannol

Mae tablau 4 a 5 yn dangos cyfanswm y terfynau gwariant adrannol ym mloc Cymru. Mae [tabl 4](#) yn dangos y newidiadau i gyfanswm y terfynau gwariant adrannol ers y gyllideb ddrafft, ac mae [tabl 5](#) yn dangos y newid rhwng 2011-12 a 2012-13 a'r newid cyffredinol dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2011-12 a 2014-15), yn nhermau arian parod ac mewn termau real.

- Cyfanswm y terfynau gwariant adrannol ym mloc Cymru ar gyfer 2012-13 yw **£15.1 biliwn**, sy'n **ostyngiad o £16.7 miliwn (0.1%) ers 2011-12**. Mewn termau real, mae hyn gyfwerth â gostyngiad o 2.5%.
- Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2011-12 a 2014-15), gwelwyd **cynnydd cyffredinol o £86 miliwn (0.6%) yng nghyfanswm y terfynau gwariant adrannol**. Mewn termau real, mae hyn yn ostyngiad o 7.0%.

O'i gymharu â'r gyllideb ddrafft, mae cyfanswm y terfynau gwariant adrannol ym mloc Cymru **wedi cynyddu £28.2 miliwn (0.2%) yn 2012-13**, ac nid oes **dim newid yn 2013-14 nac yn 2014-15**.

Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r dyraniadau ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn i'r prif grwpiau gwariant Addysg a Sgiliau, a Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, fel y nodir yn [adran 3](#).

- Cyfanswm y terfynau gwariant adrannol a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru (y prif grwpiau gwariant) ar gyfer 2012-13 yw **£14.8 biliwn**, sef 98 y cant o gyfanswm y terfynau gwariant adrannol ym mloc Cymru.
- O'i gymharu â 2011-12, mae hyn yn gynnydd o **£25.4 miliwn (0.2%)**. Mewn termau real, mae hyn gyfwerth â gostyngiad o £334.4 miliwn (2.3%).
- Dros gyfnod y gyllideb, gwelwyd **cynnydd cyffredinol o £31.4 miliwn (0.2%)**. Mewn termau real, mae hyn gyfwerth â gostyngiad o £1.1 biliwn (7.3%).

Mae'r newidiadau i gyfanswm y terfynau gwariant adrannol a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru **yr un peth a'r rhai sydd wedi'u nodi ar gyfer bloc Cymru** (gweler y blwch uchod)


Mae [ffigur 2](#) yn dangos y gyfradd o gyfanswm terfynau gwariant adrannol Llywodraeth Cymru a ddyrannwyd i bob grŵp gwariant yn 2012-13. O hyn, gellir gweld bod grwpiau gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, a

Llywodraeth Leol a Chymunedau, gyda'i gilydd, i gyfrif am oddeutu **77 y cant** o gyfanswm cyllideb terfynau gwariant adrannol Llywodraeth Cymru.

Mae **ffigur 3** yn dangos cyfanswm dyraniadau terfynau gwariant adrannol Llywodraeth Cymru i bob grŵp gwariant ym mhob blwyddyn o gyfnod y gyllideb, ac mae **ffigur 4** yn dangos y newid canrannol yng nghyfanswm dyraniadau terfynau gwariant adrannol Llywodraeth Cymru i bob grŵp gwariant rhwng 2011-12 a 2012-13, a gaiff eu cymharu â'r newid cyffredinol yng nghyfanswm y terfynau gwariant adrannol (0.2%). Mae hyn yn dangos:


- Mai yn y **prif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth** y mae'r gostyngiad canrannol mwyaf yng nghyfanswm y terfynau gwariant adrannol rhwng 2011-12 a 2012-13, sef gostyngiad o 4.6%, sef gostyngiad o 7.0% mewn termau real.
- Mai yn y **prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau** y gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf, gyda chynnydd o 2.0%, sef gostyngiad o 0.5% mewn termau real.

Ffigur 2: Cyfradd cyfanswm y terfynau gwariant adrannol a ddyrannwyd i bob portffolio yn 2012-13




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Derfynol 2012-13 Llywodraeth Cymru.

Ffigur 3: Cyfanswm y terfynau gwariant adrannol a ddyrannwyd, yn ôl portffolio, rhwng 2011-12 a 2014-15, yn nhermau arian parod



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Derfynol 2012-13 Llywodraeth Cymru.

Ffigur 4: Y newid canrannol yng nghyfanswm y terfynau gwariant adrannol a ddyrannwyd, yn ôl portffolio, rhwng 2011-12 a 2012-13, yn nhermau arian parod



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Derfynol 2012-13 Llywodraeth Cymru.

Tabl 4: Y newid yng nghyfanswm y terfynau gwariant adrannol ers y gyllideb ddrafft

Prif Grŵp Gwariant	Linell sylfaen 2011-12	Cyllideb Ddrafft 2012-13	Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14	Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Derfynol ddangosol 2013-14	Cyllideb Derfynol ddangosol 2014-15	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol 2012-13		Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol 2013-14		Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol 2014-15	
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	y cart	£000	y cart	£000	y cart
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,236,242	6,287,226	6,293,758	6,294,146	6,287,226	6,293,758	6,294,146	0	0.00	0	0.0	0	0.0
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,115,327	5,104,513	5,131,128	5,154,269	5,104,513	5,131,128	5,154,269	0	0.00	0	0.0	0	0.0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	280,234	271,326	263,798	263,798	272,326	263,798	263,798	1,000	0.37	0	0.0	0	0.0
Addysg a Sgiliau	1,800,174	1,809,523	1,818,658	1,826,293	1,836,753	1,838,658	1,846,293	27,230	1.50	20,000	1.1	20,000	1.1
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	329,709	326,812	319,993	323,439	326,812	319,993	323,439	0	0.00	0	0.0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	600,760	572,840	542,161	542,207	572,840	542,161	542,207	0	0.00	0	0.0	0	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	362,550	349,919	332,212	332,212	349,919	332,212	332,212	0	0.00	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm Dyranïadau Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru	14,724,996	14,722,159	14,701,708	14,736,364	14,750,389	14,721,708	14,756,364	28,230	0.19	20,000	0.1	20,000	0.1
Cronfeydd Refeniw	213,834	195,130	243,674	269,839	165,403	220,214	245,582	-29,727	-15.23	-23,460	-9.6	-24,257	-9.0
Cronfeydd Cyfalaf	69,880	50,449	50,449	92,162	49,521	49,483	90,855	-928	-1.84	-966	-1.9	-1,307	-1.4
Dilyn ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllideb	0	0	0	0	28,230	0	0	28,230	..	0	..	0	..
